

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 21/9/2015
Minutes of the meeting held on Monday evening 21/9/2015

Presennol / Present:

Derek Owen (Cadeirydd / Chair), Elfed Jones, David Livingstone, Tony Hughes, Julia Dobson, Jack Longman, Carys Davies, Dei Owens

Cynghorwyr Sirol/ County Councillors: Cyng./Cllr William Hughes

Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu / Translation), Richard Foxhall (Horizon), Sgt Rees (Heddlu / Police), PCSO Nerys Williams (Heddlu / Police)

Ymddiheuriadau / Apologies: Mrs Marilyn Hughes, Mrs Rose Griffiths, Cyng./Cllr Richard Jones

1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.
Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio (cyffredinol) / *Planning (general)* – William Hughes
Wylfa Newydd – Julia Dobson

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Elfed Jones, eiliwyd gan Tony Hughes.
The minutes were accepted as a true record. Proposed by Elfed Jones, seconded by Tony Hughes.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Rhyd y Groes – Fferm Wynt ac Arae Haul / Rhyd y Groes – Wind and Solar Farms

Deallwyd bod cyfarfod o fewn y Cyngor Sir yn y dyddiau nesaf ac byddai mwy o wybodaeth ar gael yn fuan.

It was understood that a meeting within the County Council was due to take place and that more information will then be available.

4.2 Llwybr Carrog Footpath

Cafwyd ddiweddariad gan Elfed Jones ar y sefyllfa bresennol. Deallwyd bod tri pris wedi ei dderbyn a bod penderfyniad wedi ei wneud i dderbyn y pris isaf gan gwmni lleol (a hynnu hanner pris y cwmnïau eraill). Gobeithir sicrhau arian gan Gyngor Mechell, Coed Cymru ac arian grant. Gobeithir hefyd byddai Cyngor Cymuned Llanbadrig yn gallu cyfrannu tuag at y gost. Nodwyd pryder am leoliad y bont ac os oedd ar dir Mechell neu Llanbadrig. Nid yw'r llwybr ar hyn o bryd yn lwybr cyhoeddus, ond deallwyd bod y swyddog tramwy yn fodlon ailgyfeirio llwybr presennol i wneud taith gylch.

Roedd cynning i'r Cyngor fabwysiadu llwybr y goedwig fel llwybr cyhoeddus, a chytunwyd gwneud hynnu dim ond os oedd arian ar gael i'w gynnal. Nid oes gwaith torri a chynnal ar y llwybr presennol ac felly nid yw yn costio dim i'r Cyngor. Byddai hefyd angen caniatad gan Cwmni Cemaes i wneud y llwybr yn un statudol. Penderfynnu cynnal cyfarfod gyda'r swyddog tramwy a Chwmni Cemaes i drafod ymhellach.

Elfed Jones gave an update on the current situation. It was understood that three prices had come to hand for a new bridge and that the decision had been made to accept the lowest price (a local company at less than half the price) it was hoped to secure funding from Mechell Council, Coed Cymru and grant funding. It was also hoped that Llanbadrig Community Council could contribute. Concerns were raised with regard to the location of the bridge and whether it was on Llanbadrig or Mechell land. The path in question is not a public footpath however the right of way officer is willing to divert the current path to form a circular route.

There is an opportunity for the Council to adopt the forest footpath as a public footpath and it was agreed to do so on the proviso that additional funding was available for its upkeep. There is no maintenance costs related to the current footpath. Consent would be required from the landowners Cwmni Cemaes before the path is made a statutory footpath. Agreed that a meeting should be arranged for Cwmni Cemaes representatives and the right of way officer.

5 **Wylfa Newydd**

Cafwyd grynodedb ganddo o weithgareddau Horizon yn yr ardal dros fisoedd yr haf. Deallwyd bod y prosiect yn dilyn ei amserlen ar hyn o bryd a disgwilir i'r cam nesaf o ymgynghori gymryd lle yn fuan.

Cafwyd wybod bod gwaith archwilio yn cymryd lle ar yr A5025 ar hyn o bryd a bydd mwy o wybodaeth am welliannau ar gael yn y pecyn ymgynghori nesaf. Bydd ymgynghoriadau pellach wrth i fwy o fanylder a mwy o wybodaeth ddod i law.

Mae angen i'r clerc gysylltu gyda ysgrifenyddes Mr Alan Raymant i drefnu dyddiad newydd ar gyfer cyfarfod.

Diolchwyd i Mr Foxhall am ei amser ac am ddod i'r cyfarfod.

A summary was given of Horizon's activities over the summer months. It was understood that the project is running to time at present and that it was expected that the next stage of consultation will take place soon.

It was understood that further investigations are currently taking place with regard to the A5025 and that more information regarding proposed improvements will be available in the consultation pack. Further consultations will take place as more detail and more information comes to hand.

Contact needs to be made with Mr Alan Raymant's secretary to arrange a new date for a meeting with him.

Mr Foxhall was thanked for attending the meeting.

6 **Heddlu Gogledd Cymru / North Wales Police**

Croesawyd Sgt Rees a PCSO Nerys Williams i'r cyfarfod a diolchwyd idynt am eu hamser i ddod i gyfarfod a'r aelodau. Deallwyd bod yr heddlu yn wreiddiol wedi cymeradwyo £1000 tuag at y gost o osod CCTV yn y ganolfan dreftadaeth ond bod hwn bellach wedi ei ei ariannu yn ei gyfanrwydd gan Gronfa Padrig. Gofynnwyd os byddai modd defnyddio'r £1000 tuag at welliannau a datblygu'r system sydd gan y Cyngor yng ngwaelod y stryd fawr ac o bosib cael estyniad tuag at yr harbwr.

Byddai angen i'r heddlu gadarnhau hyn yn swyddogol cyn ymateb. Byddai o bosib arian gan y Cyngor i gyfrannu tuag at y gost ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Deallwyd bod system Cwmni Cemaes yn caniatáu i 5 o bobl gael mynediad – Michelle Humphreys, Arwel Hughes a Carys Davies a'r heddlu. Mae'r system yn cadw rhestr o bwy sydd yn defnyddio'r system, pa bryd a beth maent wedi ei wneud arno.

Cafwyd wybod gan yr heddlu bod angen edrych yn fanwl ar ddiogelu data o'r fath ac bod cod ymddygiad a polisiau i'w dilyn. Defnyddiwyd system CCTV Amlwch fel engrhaifft ac fe ddangoswyd y ffurflenni cais am wybodaeth. Trafodwyd y pwysigrwydd o beidio a tharfu ar breifatrwydd unigolion, ond hefyd yr angen i ddiogelu eiddo.

Bydd Sgt Rees yn trefnu cyfarfod gyda Carys Davies a Chwmni Cemaes i drafod rheolaeth eu system newydd ymhellach. Bydd hefyd yn cadarnhau cyn gynted a phosib os yw'r £1000 ar gael i ddiweddarau system y Cyngor.

Tra bod yr heddlu yn bresennol, trafodwyd dyfodol Llys Ynadon Caergybi sydd dan fygythiad ar hyn o bryd. Dim ond Caergybi sydd yn gweithredu ar yr Ynys ar hyn o bryd, ac mae'n brysur iawn. Cynnigwyd bod y

Cyngor yn ysgrifennu i ddatgan pryder am ei ddyfodol. Mae problemau teithio (diffyg gwasanaethau bysiau a chostau) eisioes yn broblem heb orfod teithio i Gaernarfon neu pellach. Bydd hefyd cynydd enfawr yn y boblogaeth gyda datblygiad Wylfa Newydd ac mae angen am wasanaethau lleol.

Diolchwyd i'r PCSO am eu presenoldeb yn y pentref au parodrwydd i gefnogi gwaith y Cyngor. Deallwyd bod yr heddlu yn Amlwch y rhan fwyaf o'r amser erbyn hyn ond mae'r adnoddau ganddynt i wneud llawer iawn mwy o'u gwaith o'r adeilad felly nid ydynt pob amser yn gallu agor y drws i'r cyhoedd.

Sgt Rees and PCSO Nerys Williams were welcomed to the meeting and thanked for taking the time to meet with the Council. It was understood that the Police had originally agreed to contribute £1000 towards the CCTV system at the heritage centre but the cost has now been met in full by Cronfa Padrig. It was asked whether the £1000 could be used towards improvements and development of the Council's CCTV system overlooking the bottom of the street, possibly extending to cover the harbour area as well.

The police would need to confirm whether this would be possible. There may also be funding available from the Council to contribute towards the cost at the end of the financial year.

It was understood that Cwmni Cemaes' system allows 5 people access – Michelle Humphreys, Arwel Hughes, Carys Davies and the Police. The system remotely logs who gains access, when and what they do.

The police informed those present that there is a need to look closely at data protection and that there was a code of practice and procedures to follow. Amlwch's CCTV system was used as an example, and information request forms were shown for example. The importance of protecting property without affecting privacy was discussed.

Sgt Rees will arrange a meeting with Carys Davies and Cwmni Cemaes to discuss the management of their new system. He will also confirm as soon as possible whether the £1000 is available to update the Council's system.

As the police were present, the future of Holyhead Magistrate Court was discussed as it is currently under threat. This is the only such Court active on the island at present and it is very busy. It was proposed that the Council write to note their concerns regarding its future. There are already transport issues (lack of buss services, costs) without having to travel further afield. There will also be a large increase in the local population with the building of Wylfa Newydd and there is a need for local services.

The PCSOs were thanked for their presence in the village and their continued support of the Council's work. It was understood that the Police have a presence at Amlwch for most of the time but that improved facilities for interviewing etc mean that they are not always able to answer the door to the public.

7 **Cyllid / Finance**

Cafwyd adroddiad cryno o'r cyfarfod diwethaf gan Tony Hughes. Mae cofnodion o'r cyfarfod cyllid ar gael i unrhyw aelod sydd â diddordeb i'w gweld. Cafwyd wybod bod yr archwiliad allanol wedi ei gwblhau a diolchwyd i'r clerch am ei gwaith.

Tony Hughes gave a short summary of the last meeting. Minutes of the finance meeting are available to any member should they have an interest to see them. The external audit has been completed and the clerk was thanked for her work.

8 **Cynllunio / Planning**

8.1 Cafwyd crynodeb o gyfarfod y pwyllgor cynllunio a gynhaliwyd nos lau 17/9/2015.
All present were given a summary of the planning committee meeting held 17/9/2015.

8.2 Cyflwynwyd cais 20C299A (23 High Street Cemaes) - nid oedd gwrthwynebiad i'r datblygiad.
Application 20C299A (23 High Street Cemaes) was presented – there was no objection to the development.

- 8.3 Deallwyd bod pwyllgor y Charles Henry Ashley eisiau codi cwt i'r bad achub. Cytuno dylai'r pwyllgor wneud ymholiadau gyda'r adran gynllunio i drefnu cyfarfod a byddai aelod o'r Cyngor Cymuned yn bresennol os dymunant.

It was understood that the Charles Henry Ashley Committee wish to erect a house for the lifeboat. Agreed that the committee should make enquiries with the planning authority to arrange a meeting and that a representative from the community council be present should they wish.

9 Prynu Adeilad / Purchase of Building

Nid oed gwybodaeth ychwanegol am bryniant 10-12 Stryd Fawr ar hyn o bryd.

There is no further information on the purchase of 10-12 High Street at present.

10 Caeau Chwarae / Play Areas

Daw adroddiadau o arolygon blynyddol ROSPA er gwybodaeth. Mae copïau wedi eu danfon at bwyllgorau'r caeau chwarae.

Copies of the annual ROSPA inspection reports have been received for information. Copies have been forwarded to the play area committees.

11 Gohebiaeth / Correspondence

- 11.1 Gwybodaeth ynglŷn â chyfarfod blynyddol Un Llais Cymru yng Ngheredigion / *Information relating to the One Voice Wales AGM at Carmarthenshire.*

- 11.2 Rhifyn diweddaraf o gylchgrawn Chwarae Cymru / *Latest issue of Play Wales magazine.*

- 11.3 Gwybodaeth am ardaloedd di-fwg gwirfoddol ac arwyddion i'w hyrwyddo / *information on voluntary smoke free areas and signage to promote them.*

- 11.4 Grid Cenedlaethol - cofnodion cyfarfod briffio mis Mai er gwybodaeth a chopïau o wybodaeth wedi ei hanfon allan i'r gymuned / *National Grid - minutes from the briefing meeting held in May for information and copies of information sheets sent out to the community.*

- 11.5 Llythyr gan Mr a Mrs Benson o Derbyshire yn llongyfarch y Cyngor am y Gloch Llanw ac Amser / *A letter from Mr and Mrs Benson from Derbyshire congratulating the Council on the installation of the Time and Tide Bell.*

- 11.6 Llythyr dan deulu Smith yn gofyn a oedd posib gosod mainc coffa ar Big y Barcud er cof am eu rhieni. Trafodwyd eu cais a chytuno cysylltu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Swyddog AHNE er mwyn ceisio ffurfio gwylfan pwrpasol ar ymyl y llwybr arfordirol.

Letter from the Smith family asking to site a memorial bench on Big y Barcud in memory of their parents. Their request was discussed and it was agreed to contact the National Trust and AONB Officer to see if it would be possible to form a viewing platform alongside the coastal path.

- 11.7 Mae ymgynghoriad i newidiadau dros dro i wasanaethau marchod a mamolaeth yng ngogledd Cymru yn cymryd lle ar hyn o bryd. / *A consultation to the temporary changes to women's and maternity services in north wales in ongoing at present.*

12 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

12.1 Gwasanaeth Tan / Fire Service

Daw gwahoddiad gan Gyngor Tref Amlwch i ddau gynrychiolydd fynychu cyfarfod gyda Mr Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu Gwasanaeth Tan Gogledd Cymru nos Fawrth Medi 29. Bydd Derek Owen a Dei Owens yn cynrychioli ardal Llanbadrig. Mae pryderon ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth tan yn yr

ardal yn gyffredinol a chafwyd trafodaeth am bwysigrwydd cael offer a phobl leol ar gael yn yr ardal er mwyn diogelu bywydau ac eiddo.

Amlwch Town Council have invited two members to attend a meeting with Mr Gareth Griffiths, Senior Training and Development Officer North Wales Fire Service on Tuesday September 29. Derek Owen and Dei Owens will represent the Council. Concerns were raised with regard to the future of the fire service in the area in general and the importance of having equipment and firefighters locally to safeguard lives and property was discussed.

12.2 Cofeb / War Memorial

Dangoswyd cynlluniau ar gyfer trin y gofeb. Cytuno na all y Cyngor gymeradwyo unrhyw waith nes bod perchnogaeth y gofeb wedi ei gadarnhau. Cytuno y dylai pawb wneud ymholiadau lle posib. Cytuno dylai unrhyw gynlluniau hefyd cynnwys symud y safle bws ymhellach i lawr y ffordd os yn bosib.

Plans to revitalise the memorial were shown. Agreed that the Council could not approve any work until ownership had been determined. Agreed that everyone should make enquiries where possible. Agreed that any plans should also include moving the bus shelter further down the road if at all possible.

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd y cyfarfod llawn nesaf nos Lun Hydref 19, 2015, am 6.30 o'r gloch yn y Llyfrgell.

The next full council meeting will be on Monday evening October 19 2015 at the Library for 6.30pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch. / *The meeting closed at 9pm.*